# CDLl2

# Ceredigion

**Cynllun Datblygu Lleol Newydd**

**2018 - 2033**

**Papur Pwnc: Yr Economi Wledig a Chyflogaeth**

**Diweddariad ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir**

**2019**

Draft

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

**Os hoffech chi gael y ddogfen hon mewn fformat arall, fel print bras neu gefndir lliw, cysylltwch â'r tîm Polisi Cynllunio drwy e-bost ldp@ceredigion.gov.uk neu dros y ffôn 01545 572123**

Drafft

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Nodyn i'r Darllenydd | ii |
| 1. Crynodeb Gweithredol | 1 |
| 2. Cyflwyniad | 1 |
| 3. Tabl Diweddaru | 2 |
| 4. Y Cyd-destun Lleol | 13 |
| 5. Materion Adolygu (Ysgogwyr) | 16 |
| 6. Dadansoddiad (opsiynau ar gyfer rhoi sylw i'r mater) | 41 |
| 7. Casgliadau / Argymhellion | 41 |


Drafft

# Nodyn i'r Darllenydd

Cyhoeddwyd y Papurau Pwnc a'r Papurau Cefndir Diweddaru ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Adnau yr un pryd (Rhagfyr 2010) ac maent yn dal i fod ar gael ar wefan y Cyngor neu ar ffurf copi papur ar gais.

Prif bwrpas y Papur Cefndir Diweddaru hwn yw dangos, ers i'r CDLl Adnau gael ei gyhoeddi ac i'r CDLl gael ei fabwysiadu wedi hynny yn Ebrill 2013, a fu unrhyw newidiadau yn y cyfarwyddyd, polisïau neu strategaethau perthnasol, gwybodaeth a thystiolaeth, neu faterion sydd wedi dod i'r amlwg trwy'r Adroddiad Monitro Blynyddol neu apeliadau, sy'n awgrymu bod y materion a gafodd sylw yn y CDLl mabwysiedig wedi newid, neu nid ydynt yn cael eu trin yn llawn yn y polisïau.

Bydd pob papur yn darparu tabl cryno o unrhyw faterion sydd wedi codi ers i'r Cynllun gael ei adneuo, ac a yw'r rhain yn ysgogi'r angen am ymchwiliad pellach i weld a oes angen gwneud newidiadau fel rhan o'r adolygiad o'r CDLl, neu esboniad pellach ynghylch pam nad oes angen gwneud newidiadau. Os oes angen cael trafodaethau pellach caiff hyn ei gynnwys o fewn y papur diweddaru.

Draft

# 1. Crynodeb Gweithredol

1.1.1 Mae'r Papur Pwnc hwn yn amlinellu'r prif bolisïau a chyfarwyddyd sydd wedi cael eu rhyddhau ers y Papur Pwnc Economi diwethaf a pha effaith y maent yn ei chael ar y polisïau yn y CDLl.

1.1.2 Dangoswyd mai cynlluniau newydd fframwaith Tyfu Canolbarth Cymru (GMW) yw'r prif newid i economi wledig Ceredigion, a sut y mae'n rhaid ystyried y cynlluniau cynnar hyn yn y cynllun a'r sylfaen dystiolaeth, ond ar hyn o bryd gellid gwneud y polisïau yn hyblyg ac yn ganiataol yn unig (rydym wedi sefydlu bod y rhai presennol yn gwneud hynny) oherwydd nid yw unrhyw ddyraniadau yn barod ar gyfer y strategaethau hyn.

# 2. Cyflwyniad

2.1.1 Roedd y Papur Pwnc yr Economi Wledig a Chyflogaeth (Rhagfyr 2011) wedi ystyried y rôl sydd gan fanwerthu, amaethyddiaeth, twristiaeth a gweithgareddau economaidd cysylltiedig eraill i'w chwarae yng Ngheredigion o ran anghenion economaidd cyfredol, elfennau cyflogaeth cyfredol sydd yn eu lle, a'r cyfleoedd sydd ar gyfer datblygu economaidd.

2.1.2 Yna defnyddiwyd yr wybodaeth hon i bennu'r materion allweddol a allai gael sylw yn y CDLl, amcanion y strategaeth, ac yn olaf wrth ddatblygu polisïau.

### 2.2 Rôl y papur hwn

2.2.1 Mae'r papur hwn yn ystyried beth sydd wedi newid ers i'r Papur Pwnc Diweddaru blaenorol gael ei ryddhau, ac a oes angen diweddariad mwy manwl i drafod unrhyw faterion sydd wedi codi. Os felly caiff y diweddariad mwy manwl ei gynnwys o fewn y papur hwn.

Draft

# 3. Tabl diweddaru

3.1.1 Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r newidiadau sydd wedi digwydd neu faterion sydd wedi codi mewn perthynas â'r Economi Wledig a Chyflogaeth. Gall y rhain fod yn newidiadau/mewn polisïau, strategaethau newydd ac ati, newidiadau mewn/tystiolaeth neu wybodaeth newydd, neu'n faterion sydd wedi codi yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol neu apeliadau.

| **Mater Adolygu / Newid Arfaethedig** | **Ffynhonnell / Ysgogiad** | **Dyddiad (Mis/ Blwyddyn)** | **Gweithredu** | **Sylwadau pellach** | **Angen Adolygu'r Papur Pwnc?** |
|---|---|---|---|---|---|
| Strategaeth datblygu economaidd newydd ar gyfer Cymru wedi'i rhyddhau yn 2010 – Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd. | Llywodraeth Cymru – Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd | 2010 | Dim angen ystyried y polisi ymhellach. | Mae dull newydd o ymdrin â datblygu economaidd yn cael ei amlinellu ac ystyriaethau ar gyfer adolygu'r polisi cynllunio mewn perthynas â datblygu economaidd. Gweler y newidiadau a weithredwyd trwy Bolisi Cynllunio Cymru a TAN 20. | Na |
| Nodyn Cyfarwyddyd Ymarfer TAN 6 wedi'i ryddhau. | Anheddau Menter Wledig – Nodyn Cyngor Technegol 6 | Rhagfyr 2011 | Dim angen ystyried y polisi ymhellach. | Amcan y canllaw hwn yw cynorthwyo ymgeiswyr sy'n ceisio caniatâd cynllunio ac awdurdodau cynllunio lleol i ddeall a dehongli'r agwedd | Na |

Draft

| Mater Adolygu / Newid Arfaethedig | Ffynhonnell / Ysgogiad | Dyddiad (Mis/ Blwyddyn) | Gweithredu | Sylwadau pellach | Angen Adolygu'r Papur Pwnc? |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy | | | arbennig hon ar bolisi tai gwledig. | |
| Y fframwaith adfywio diweddaraf a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru – Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid | Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid | 2013 | Dim angen ystyried y polisi ymhellach. | Mae'r strategaeth hon yn amlinellu nifer o ganlyniadau cenedlaethol i gyflawni ei nodau, ac mae'n ystyried tair egwyddor allweddol ar gyfer adfywio. Mae'r cyfan wedi cael ei ystyried yn y strategaeth CDLl bresennol a'i deddfu trwy'r Polisi Cynllunio Cymru diwygiedig a TAN 23. | Na |
| Cafodd TAN 23 Datblygu Economaidd ei ddatblygu a'i | Nodyn Cyngor Technegol 23 | 2013 | Angen ymchwilio pellach. | Mae'r diweddariadau hyn yn sicrhau bod y system gynllunio yn hwyluso adfywio economaidd yng Nghymru | Ie |

Draft

| **Mater Adolygu / Newid Arfaethedig** | **Ffynhonnell / Ysgogiad** | **Dyddiad (Mis/ Blwyddyn)** | **Gweithredu** | **Sylwadau pellach** | **Angen Adolygu'r Papur Pwnc?** |
|---|---|---|---|---|---|
| ryddhau ynghyd â Diweddariad Polisi Cynllunio Cymru 10 | | | | yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni gorau y gallant. Mae datblygu TAN 23 newydd yn arwyddocaol ar gyfer ceisiadau cynllunio datblygu economaidd yn y dyfodol. Mae'r TAN 23 newydd yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r awdurdod lleol gynnal Adolygiadau Tir Cyflogaeth a rhagweld y gofynion yn y dyfodol. Mae methodoleg newydd wedi cael ei chynnig ar gyfer ymgymryd â'r gwaith. | |
| Yng Ngorffennaf 2013 sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen gan Lywodraeth Cymru i ystyried y posibilrwydd o Ardal Twf Lleol yn | Ardal Twf Lleol Dyffryn Teifi | Gorffennaf 2013 | Dim angen ymchwilio pellach | Sefydlwyd y grŵp gorchwyl i asesu opsiynau polisi er mwyn darparu cymorth i Ddyffryn Teifi ar gyfer yr economi a swyddi. Cafodd 26 o argymhellion eu hystyried. Mae argymhelliad 23 yn bwysig oherwydd | Na |

Draft

| Mater Adolygu / Newid Arfaethedig | Ffynhonnell / Ysgogiad | Dyddiad (Mis/ Blwyddyn) | Gweithredu | Sylwadau pellach | Angen Adolygu'r Papur Pwnc? |
|---|---|---|---|---|---|
| Nyffryn Teifi. Yn Nhachwedd 2014 crëwyd grŵp pellach i arolygu'r gwaith o weithredu'r argymhellion. | | | | ei fod yn nodi'r angen ar gyfer monitro pellach er mwyn sicrhau bod y CDLl a'r polisïau yn unol ag Adroddiad Tuag at Ddyfodol Diwastraff. Daeth Grŵp Dyffryn Teifi i ben yn 2018 yn dilyn diffyg cynnydd yn Ardal Twf Lleol. | |
| Cafodd Cynllun Integredig Sengl ar gyfer Ceredigion ei ryddhau – sy'n cyflwyno gweledigaeth gytunedig ar gyfer y sir. | Ceredigion i Bawb: Y Cynllun Integredig Sengl | 2013 | Dim angen ymchwilio pellach | Mae 'Ceredigion i Bawb' – y Cynllun Integredig Sengl yn amlinellu'r prif faterion a chamau gweithredu y bydd y Cyngor a'i sefydliadau partner yn gweithio gyda'i gilydd i'w cyflawni dros y pedair blynedd nesaf 2013 – 2017. Mae nodau ac egwyddorion y cynllun yn unol â strategaeth CDLl Ceredigion. | Na |

Draft

| **Mater Adolygu / Newid Arfaethedig** | **Ffynhonnell / Ysgogiad** | **Dyddiad (Mis/ Blwyddyn)** | **Gweithredu** | **Sylwadau pellach** | **Angen Adolygu'r Papur Pwnc?** |
|---|---|---|---|---|---|
| Ffurfiwyd Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru i sefydlu strategaethau mwy rhanbarthol | Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru (2015) | 2015 | Angen ymchwilio pellach | Mae Tyfu Canolbarth Cymru yn bartneriaeth ranbarthol gyda threfniadau ymgysylltu rhwng y sector preifat a chyhoeddus a Llywodraeth Cymru. Mae'r fenter yn ceisio cyflwyno buddiannau a blaenoriaethau'r rhanbarth er mwyn gwella'r economi leol. Mae prosiectau ymchwil wedi cael eu cynnal i gynhyrchu adroddiadau seiliedig ar dystiolaeth ar y blaenoriaethau economaidd strategol yn Rhanbarth Canol Cymru. Trafodir y rhain yn yr adrannau perthnasol isod – ond mae'r uchelgeisiau ar gam cynnar ac felly ni ellir gwneud unrhyw ddyraniadau ffurfiol ar hyn o bryd. | Ie |

Draft

| **Mater Adolygu / Newid Arfaethedig** | **Ffynhonnell / Ysgogiad** | **Dyddiad (Mis/ Blwyddyn)** | **Gweithredu** | **Sylwadau pellach** | **Angen Adolygu'r Papur Pwnc?** |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae polisi trafnidiaeth diweddaraf wedi cael ei ryddhau ar ffurf Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Canolbarth Cymru 2015 | TraCC, Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Canolbarth Cymru 2015 | Ionawr 2015 | Angen ystyried y polisi ymhellach | Mae'r cynllun hwn yn ceisio cwmpasu rhaglen fanwl o fframwaith a chynlluniau ar gyfer trafnidiaeth yng Nghanolbarth Cymru am y 5 mlynedd nesaf a thu hwnt. | Ie |
| Rhaglen Datblygu Cymru Wledig 2014-2020 – dogfen wedi'i rhyddhau | Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru (2015) | Mai 2015 | Dim newid | Mae'r amcanion a nodwyd o fewn y rhaglen hon yn unol â CDLl Ceredigion. | Na |
| Mabwysiadodd Cyngor Ceredigion ei Strategaeth | Ceredigion i Bawb: Ein Bywoliaeth, Ein Strategaeth | Mehefin 2015 | Dim newid | Nod y Strategaeth yw mynd i'r afael â rhai o'r prif heriau a wynebir yn y sir. Nid yw'n creu angen i ddiwygio'r | Na |

Draft

| Mater Adolygu / Newid Arfaethedig | Ffynhonnell / Ysgogiad | Dyddiad (Mis/ Blwyddyn) | Gweithredu | Sylwadau pellach | Angen Adolygu'r Papur Pwnc? |
|---|---|---|---|---|---|
| Adnewyddu newydd ym Mehefin 2015. | Adnewyddu Economaidd 2014-2020 | | | CDLl ei hun ar hyn o bryd. | |
| Cyfarwyddyd Ymarfer wedi'i ryddhau ar gyfer Sylfaen Dystiolaeth Adeiladu a Datblygu Economaidd i gefnogi'r CDLl. | Sylfaen Dystiolaeth Adeiladu a Datblygu Economaidd i gefnogi'r CDLl | Awst 2015 | Dim newid | Mae'n darparu cyngor ar sut i adeiladu sylfaen dystiolaeth ar gyfer cyflogaeth a'r economi. | Na |
| Diweddariad i TAN 4 | Llywodraeth Cymru Nodyn Cyngor Technoleg 4: Datblygu Canolfannau Manwerthu (2016) | Tachwedd 2016 | Dim newid | Mae'r diweddariad yn cydymffurfio'n fras â'r CDLl mabwysiedig. Ni chafodd unrhyw bolisïau eu creu'n benodol ar gyfer defnyddiau B1, B2 a B8 o ganlyniad i'r TAN penodol hwn. Felly mae goblygiadau'r TAN hwn yn cael eu trafod yn fwy manwl yn y Papur Pwnc Diweddaru: | Na |

Draft

| **Mater Adolygu / Newid Arfaethedig** | **Ffynhonnell / Ysgogiad** | **Dyddiad (Mis/ Blwyddyn)** | **Gweithredu** | **Sylwadau pellach** | **Angen Adolygu'r Papur Pwnc?** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Manwerthu. | |
| Mae Twf Gwyrdd yn ffocws newydd Llywodraeth Cymru a gallai fod yn rhywbeth i'w ystyried mewn perthynas â'r economi wledig. Dogfen newydd i'w rhyddhau ar gyfer ymgynghori. | Twf Gwyrdd Cymru: Buddsoddi yn y Dyfodol | Tachwedd 2015 | Angen ystyried y polisi ymhellach | Gall y defnydd cynaliadwy o'n hadnoddau naturiol greu model economaidd newydd a fydd yn creu cyfoeth a thwf economaidd heddiw ac yn y dyfodol. | Ie |
| Mae Asesiad o Anghenion Economaidd Ceredigion 2008; 2009; 2010 wedi dyddio a bydd angen ei adnewyddu. | Asesiad o Anghenion Economaidd Ceredigion (a diwygiadau) 2008; 2009; 2010 | 2015 | Asesiad newydd i'w gynnal | Mae'r Cyngor wedi cynnal adolygiad mewnol o dir cyflogaeth ac yn gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol ar Asesiad o Anghenion Cyflogaeth Leol a Mwy sy'n ymchwilio i'r rhesymau dros ddiffyg datblygu rhai safleoedd | Ddim ar hyn o bryd |

Draft

| Mater Adolygu / Newid Arfaethedig | Ffynhonnell / Ysgogiad | Dyddiad (Mis/ Blwyddyn) | Gweithredu | Sylwadau pellach | Angen Adolygu'r Papur Pwnc? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | cyflogaeth a neilltuwyd, gan ystyried y galw am ddyraniadau yn y dyfodol yn y dystiolaeth newydd. | |
| Arfarniad o Gynaliadwyedd newydd i'w gyhoeddi yn 2019. | Arfarniad o Gynaliadwyedd | 2019 | Arfarniad o Gynaliad-wyedd newydd i'w gwblhau | Mae Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn cynnwys rhestr o ddangosyddion posibl y gellid eu defnyddio i fonitro llwyddiant polisïau'r CDLl. Maent yn ymwneud yn bennaf â swyddogaeth economaidd gyffredinol y sir (ar ôl eu mireinio) a bydd angen diweddaru ac adolygu'r rhain. | Ddim ar hyn o bryd |
| Mae dangosyddion yr Adroddiad Monitro Blynyddol diweddaraf yn dod i'r casgliad bod y targedau yn cael eu | Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2018 | Hydref 2018 | Dim newid | Mae AMRE01-04 ac AMRQ02 i gyd yn dod i'r casgliad nad oes unrhyw bryderon ar hyn o bryd ynghylch gweithredu polisïau'r CDLl. | Na |



Draft

| **Mater Adolygu / Newid Arfaethedig** | **Ffynhonnell / Ysgogiad** | **Dyddiad (Mis/ Blwyddyn)** | **Gweithredu** | **Sylwadau pellach** | **Angen Adolygu'r Papur Pwnc?** |
|---|---|---|---|---|---|
| cyflawni ar hyn o bryd ac nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithredu'r polisïau. | | | | | |
| Mae diweddariad o Bolisi Cynllunio Cymru wedi cael ei gyhoeddi. | Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 10 | Rhagfyr 2018 | | Ceir ffocws ar Leoedd Cynhyrchiol a Mentrus sy'n trafod y cysyniadau economaidd o greu lleoedd. Ceir ffocws ar gynyddu'r gweithgarwch economaidd ar draws yr holl sectorau a graddfeydd i greu Cymru Lewyrchus. | |

Draft

## 3.2 Casgliad

3.2.1 Fel y nodir yn y tabl uchel, mae newidiadau mewn polisi/cyfarwyddyd/tystiolaeth/materion wedi arwain at yr angen am drafodaeth fwy manwl mewn perthynas â'r pwnc hwn.

3.2.2 Dylai polisi cenedlaethol newydd gael ei hystyried yn unol â pholisïau'r CDLl.

3.2.3 Cynghorir bod diweddariad pellach o'r papurau pwnc yn cael ei gynnal pan fydd yr Asesiad o Anghenion Economaidd wedi'i gwblhau.

Drafft

# 4. Y Cyd-destun Lleol

## 4.1 Cefndir

4.1.1 Mae'r Papurau Pwnc a ysgrifennwyd ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir a'r Cynllun Adnau yn rhoi mwy o fanylion mewn perthynas â'r economi wledig yn y sir. Mae'r manylion hynny yn parhau'n berthnasol ac felly ni chânt eu hailadrodd yma. Fodd bynnag, mae'r adran ganlynol yn crynhoi sut mae gwybodaeth ym mhapur 2010 wedi dylanwadu ar gynnwys y CDLl a'i gynhyrchu.

4.1.2 O'r sylfaen dystiolaeth, cafodd nifer o faterion eu nodi y gall fod modd rhoi sylw iddynt, o leiaf yn rhannol, yn y CDLl. Y materion yma yw (sylwer: mae; materion pellach a disgrifiad i'w gweld ym mhapur pwnc 2011):

a. Rhaid cael digon o gyfle i economi'r sir dyfu oherwydd bydd hyn yn helpu i gadw ein pobl ifanc. Dylai hyn, yn ei dro, gynorthwyo'r iaith oherwydd dyma'r grŵp oedran a fydd wedi elwa o gael addysg Gymraeg orfodol. Mae gan dai hygyrch a chyfleusterau cymunedol digonol rôl i'w chwarae hefyd.
b. Mae tlodi gwledig yn broblem fawr, gydag incwm yn llawer llai mewn ardaloedd gwledig nag y mae mewn ardaloedd trefol. Bydd angen ateb anghenion yr ardal wledig yn fwy hyblyg os ydym am gynnal ardaloedd gwledig.
c. Mae lefelau uchel o weithio o gartref yn y sir ar y cyd â graddfa uchel o gymudo pellter hir. Ceir lefelau uchel o hunangyflogaeth a gweithio rhan-amser hefyd yn y sir. Bydd poblogaeth sy'n heneiddio yn dylanwadu ar lefel a'r math o weithlu sydd ar gael yng Ngheredigion.
d. Mae TGCh da yn hanfodol er mwyn cael y cynhyrchedd mwyaf o'r gweithlu gan ystyried nodweddion y boblogaeth a natur wledig y sir.
e. Mae gwasanaethau cyhoeddus, addysg, twristiaeth, hamdden ac amaethyddiaeth yn dominyddu'r strwythur cyflogaeth yn y sir. Ni ellir darparu ar gyfer nifer o'r cynhyrchwyr cyflogaeth hyn ar safleoedd busnes neu gyflogaeth.
f. O ran y defnyddiau y dylid annog eu lleoli ar safleoedd busnes neu gyflogaeth, mae twf yn y dyfodol yn debygol o gael ei danio gan dwf

busnes cynhenid a phrosiectau buddsoddi mewnol ar raddfa fach i ganolig gyda galw am safleoedd prestige neu o safon uchel. Dylai portffolio'r safleoedd gynnig amrywiaeth o fathau o safleoedd.

4.1.3 Cafodd y materion hyn eu hymchwilio a'u cynnwys yn y Materion ac Amcanion Allweddol, ac yna cael sylw lle'n bosibl o fewn Polisïau'r CDLl. Nid yw unrhyw newidiadau arfaethedig wedi cael eu gwneud i faterion allweddol economi wledig yn CDLl 2.

## 4.2 Y Sefyllfa Bresennol

4.2.1 Cafodd y CDLl ei fabwysiadu yn Ebrill 2013 a chwblhawyd yr adolygiad cyntaf yn 2017. Roedd hwn wedi nodi amrywiaeth o faterion yr oedd angen rhoi sylw iddynt wrth ysgrifennu'r cynllun newydd, materion yn ymwneud â'r strategaeth yn bennaf. Heblaw sicrhau bod gwaith Tyfu Canolbarth Cymru yn cael ei gynnwys yn llawn yn CDLl 2, ni nodwyd unrhyw faterion economi wledig eraill fel rhai nad ydynt wedi cael sylw digonol yn y polisïau cyfredol.

4.2.2 Mae pum Adroddiad Monitro Blynyddol wedi cael eu cynhyrchu sy'n monitro effeithiolrwydd y CDLl yn erbyn yr hyn y dywedwyd y byddai'n ei wneud. Mae pum targed wedi cael eu cynnwys sy'n monitro effeithiolrwydd yr economi a pholisïau (eraill).

| **Dangosydd** | **Casgliad** |
|---|---|
| AMRE01 | Mae'r targed yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd ac nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithredu'r polisïau. |
| AMRE02 | Er nad yw'r targed ar gyfer 2018 wedi cael ei gyflawni nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithredu'r polisïau. Bydd yr adolygiad o'r CDLl yn ystyried y sylfaen dystiolaeth economaidd wedi'i diweddaru sy'n cael ei pharatoi yn ystyried anghenion tir cyflogaeth yn y dyfodol ac yn adolygu'r safleoedd cyflogaeth a neilltuwyd. |
| AMRE03 | Mae maint y tir cyflogaeth a neilltuwyd yn ddigonol ar gyfer cyfnod y cynllun. Mae'r targedau'n cael eu cyflawni ar hyn o |

Draft

| | |
|---|---|
| | bryd ac nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithredu'r polisïau. |
| AMRE04 | Mae'r dangosydd yn cael ei gyflawni. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithredu polisïau'r CDLl. |
| AMRQ02 | Mae targedau caniatadau preswyl ac economaidd yn cael eu cyflawni. Mae caniatadau ar gyfer datblygu arall yn uwch na'r targed. Er gwaethaf hyn, mae dadansoddiad o'r datblygiadau eraill yn awgrymu eu bod yn briodol o ran eu graddfa a'u lleoliadau, ac felly nid oes unrhyw bryderon ar hyn o bryd ynghylch gweithredu polisïau'r CDLl. |
| Amcan Cynaliad-wyedd 8a | Er y bu gostyngiad amlwg yn nifer yr ymwelwyr sy'n aros, nid yw hyn i'w weld yn unigryw i Geredigion. Ystyrir bod y gyfres o bolisïau twristiaeth yn y CDLl yn cefnogi'r amcan, ac mae'r CDLl yn parhau i hyrwyddo, datblygu a gwella cyfleoedd ar gyfer twristiaeth gynaliadwy ac amgylchedd gyfeillgar, cyfleusterau hamdden a difyrrwch yng Ngheredigion. |
| Amcan Cynaliad-wyedd 9a | Nid oes unrhyw bryderon ynghylch strategaeth a pholisi'r CDLl mewn perthynas â'r amcan hwn. |
| Amcan Cynaliad-wyedd 12a | Mae yna arwyddion bod darlun cymysg o ran twf yn yr economi a'r farchnad swyddi yng Ngheredigion. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i ddweud ai tuedd hirdymor yw hon ac a oes cysylltiad achosol rhyngddo a gweithredu'r CDLl. Er gwaethaf yr ansicrwydd hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y CDLl yn cael effaith negyddol ar yr economi leol ac felly, yng nghyd-destun yr AAS/AG, nid yw effaith gyffredinol y CDLl yn creu unrhyw bryderon ar hyn o bryd. |

Draft

# 5. Materion Adolygu (Ysgogwyr)

5.1.1 Mae Tabl 1 yn Adran 3 yn crynhoi'r dadansoddiad o'r Adroddiad Monitro Blynyddol, deddfwriaeth/cyfarwyddyd/polisi newydd neu wedi'i ddiweddaru a thystiolaeth newydd/wedi'i diweddaru. Pan fydd materion wedi cael sylw, rhoddir rhagor o wybodaeth isod. Sylwer, mae'r holl newidiadau mewn strategaeth/cyfarwyddyd/polisi wedi cael eu hamlinellu yn yr adran hon.

## Dangosyddion yr Adroddiad Monitro Blynyddol

5.1.2 Mae Adroddiad Monitro Blynyddol 2018 yn nodi nad oes unrhyw faterion ar hyn o bryd mewn perthynas â pholisi'r CDLl a datblygu economaidd. Mae targedau'r Economi a Manwerthu yn cael eu cyflawni'n bennaf ac nid oes unrhyw bryder mawr ynghylch gweithredu'r polisïau hyn.

5.1.3 AMRE01 – Cafodd enillion gros o 1.7ha o ddatblygiadau dosbarth B1, B2 a B8 ei ganiatáu yn ystod y cyfnod monitro. Mae'r ffigur hwn yn cymharu â +0.57ha (2017), +0.14ha (2016), +1.94ha (2015) a +0.14ha (2014). Roedd yr enillion cyflogaeth (+1.7ha) yn cyfeirio at chwe chais cynllunio mewn lleoliadau trefol a gwledig amrywiol ar draws y sir. Mae'r targed yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd ac nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithredu'r polisïau.

5.1.4 AMRE02 – Nid yw'r targed o ganiatáu neu gwblhau 83% o safleoedd a neilltuwyd erbyn 2018 wedi cael ei gyflawni gyda dim ond 75.3% (wedi'u caniatáu) a 58.1% (wedi'u cwblhau). Ni chafodd unrhyw caniatadau eu rhoi yn 2018 ar gyfer safleoedd cyflogaeth a neilltuwyd, ac er bod unedau wedi'u cwblhau gwblhad ar safleoedd cyflogaeth a neilltuwyd, nid oeddent ar rannau o'r safle oedd heb eu datblygu o'r blaen. Nodir y cafodd y rhan fwyaf o'r unedau a gwblhawyd a gofnodwyd eu cwblhau cyn mabwysiadu'r CDLl gan fod llawer o'r safleoedd cyflogaeth a neilltuwyd yn y CDLl wedi cael eu nodi er mwyn caniatáu ar gyfer ailddatblygu cydlynus a/neu resymoli eu defnyddiau presennol. Er bod y targed a nodwyd ar gyfer 2018 heb gael ei gyflawni, nid oes unrhyw bryderon ynghylch lefel y datblygiadau cyflogaeth yn gyffredinol sydd wedi gweld arafu cyffredinol yn yr economi dros y

Draft

blynyddoedd diwethaf, gan felly cefnogi lleihad tebygol yn y gofyniad cyffredinol am dir cyflogaeth.

5.1.5 AMRE03 – Yn ôl Asesiad o Anghenion Economaidd Ceredigion (DTZ, 2010), nid yw oddeutu 63% o'r swyddi y rhagwelwyd y byddent yn cael eu creu dros gyfnod y CDLl yn gofyn am safle cyflogaeth a neilltuwyd er mwyn gweithredu. O ganlyniad, disgwylir y bydd cyfran fawr o ddatblygu economaidd yn digwydd ar leoliadau oddi ar safleoedd cyflogaeth. Fodd bynnag, o ran caniatadau ac unedau a gwblhawyd, cyflawnwyd yr holl dargedau ar gyfer y dangosydd hwn, gan awgrymu bod y safleoedd a neilltuwyd yn y CDLl yn gweithredu fel y dymunir ar hyn o bryd. Bydd diweddariad o'r asesiad o anghenion economaidd yn ystyried faint o dir cyflogaeth sy'n debygol o fod ei angen yn y dyfodol. Mae'r targedau yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd ac nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithredu'r polisïau gan fod swm y tir cyflogaeth a neilltuwyd yn ddigonol i gwmpasu cyfnod y cynllun.

5.1.6 AMRE04 – Gan mai sir wledig yw Ceredigion ac nid oes llawer o dir llwyd ar gael i'w ddatblygu, mae'n anochel y bydd tir glas yn cyfrannu at gyfran fawr o'r holl dir y gellir ei ddatblygu. Mae mwy na 30% o'r holl ddatblygu economaidd a ganiatawyd ac a gwblhawyd wedi bod ar dir llwyd ers dechrau'r broses CDLl, gyda 58% wedi'i ganiatáu (9.61ha) a 43% (5.1ha) wedi'i gwblhau. Felly mae'r targed wedi cael ei gyflawni ac nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithredu polisïau'r CDLl.

5.1.7 Mae dadansoddiad o'r ceisiadau cynllunio perthnasol yn dangos mai achos y methiant hwn yw'r diffyg darpariaeth mewn perthynas â chaniatâd amlinellol ar gyfer Parc Busnes Capel Bangor (A031074), sydd wedi'i neilltuo yn y CDLl fel E0305. Mae'r caniatâd cynllunio wedi dod i ben erbyn hyn. Nid yw'r awdurdod cynllunio lleol wedi cael cais cynllunio newydd cyn i'r caniatâd ddod i ben, felly caiff cynnwys y safle hwn yn y cynllun ei ailystyried ar sail y gallu i'w ddatblygu. Fodd bynnag, Parc Busnes Capel Bangor yw un o safleoedd cyflogaeth mwyaf Ceredigion ac mae ei fodolaeth yn bwysig i hwyluso twf economaidd Ceredigion. Dynodwyd y safle hwn fel yr unig leoliad addas ar gyfer parc busnes o'r math hwn, ac felly barnwyd bod ei

Draft

fuddion yn bwysicach na cholli tir maes glas. Bydd gwaith ar yr Astudiaeth Cyflogaeth Leol a Mwy ar draws rhanbarth Tyfu Canolbarth Cymru yn ystyried y mater hwn yn fanwl, a chaiff argymhellion eu gwneud yn unol â hynny.

5.1.8 O ganlyniad, er bod taged y dangosydd heb ei gyrraedd yn llawn o ran datblygu a ganiateir, mae'r rhesymau yn glir a bydd trafodaethau pellach yn digwydd yn ystod y flwyddyn i ystyried datblygu Capel Bangor yn y dyfodol. Felly, nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithrediad y polisi eto.

5.1.9 AMRQ02 – Gan mai sir wledig yw Ceredigion ac nid oes llawer o dir llwyd ar gael i'w ddatblygu, mae'n anochel y bydd tir glas yn cyfrannu at gyfran fawr o'r holl dir y gellir ei ddatblygu, a lluniwyd targedau'r dangosydd i adlewyrchu hyn.

5.1.10 Nid yw'r trothwy o 75% a osodwyd ar gyfer datblygu preswyl o ran datblygu a ganiatawyd, neu ddatblygu a gwblhawyd, ac mae 81% o'r unedau a gwblhawyd wedi'u lleoli ar dir glas. Yr anhawster gyda'r dangosydd hwn yw nad oes gan yr Awdurdod Lleol unrhyw reolaeth dros y caniatadau cynllunio ar ôl iddynt gael eu rhoi. Byddai llawer o'r caniatadau sydd wrthi'n cael eu cwblhau wedi cael eu rhoi cyn mabwysiadu'r CDLl, ac felly cyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol allu dylanwadu ar leoliad datblygiad o blaid safleoedd tir llwyd.

5.1.11 Cyflawnwyd y targedau ar gyfer caniatadau datblygu economaidd, gyda 24% o'r datblygu a ganiatawyd, er hynny cafodd 46% o'r datblygu economaidd ei gwblhau ar dir glas. I wrthweithio hyn, rhagorwyd ar y targed ar gyfer y mathau eraill o ddatblygu. Mae hyn i'w briodoli i ychydig o geisiadau arwyddocaol gan gynnwys datblygiad manwerthu a chymunedol yn Aberteifi a datblygu tair ysgol. Mae datblygiadau o'r fath, yn ôl eu natur, yn ddigwyddiadau anarferol ac felly ni ystyrir eu bod yn fygythiad i gyflawni amcanion y CDLl yn y tymor hir.

Draft

5.1.12 Mae'r targed ar gyfer datblygu arall wedi cael ei ragori ond yn wyneb y budd cymunedol/economaidd a wireddwyd mewn perthynas â 'datblygu arall' ni ystyrir ei fod yn achos o bryder.

5.1.13 I grynhoi, mae'r rhan fwyaf o'r targedau a nodwyd ar gyfer y dangosydd hwn yn cael eu cyflawni. Ni ystyrir bod y targedau datblygu nad ydynt yn cael eu cyflawni yn achos o bryder.

### Amcan Cynaliadwyedd 8a Hyrwyddo, datblygu a gwella cyfleoedd ar gyfer twristiaeth gynaliadwy ac amgylcheddol gyfeillgar, cyfleusterau hamdden a difyrrwch yng Ngheredigion

5.1.14 Am ystyriaeth fanwl o dwristiaeth, gweler y papur pwnc twristiaeth 2019, ond yn gryno:

5.1.15 Ni chafwyd unrhyw newidiadau mawr yng nghyfanswm nifer yr ymwelwyr neu'r mathau o ymwelwyr yn y blynyddoedd diwethaf, ac ychydig o gynnydd yn nifer y twristiaid a'r effaith economaidd. Mae nifer yr ymwelwyr sy'n aros a ddim yn aros wedi newid ychydig bach dros y 10 mlynedd ddiwethaf, ond maent wedi parhau ar y ffigurau a nodir isod yn gyson. Fodd bynnag, mae lefelau'r budd economaidd a ddaw trwy ymweliadau gan dwristiaid yn parhau i godi'n raddol.

5.1.16 Mae'r wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer y flwyddyn galendr 2016 a hon yw'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael:

Cyfanswm o 1,231,000 o ymwelwyr sy'n aros gan gynnwys:

- 202790 o bobl yn aros mewn llety â gwasanaeth
- 913,210 o bobl yn aros mewn llety heb wasanaeth
- 115,280 o bobl yn aros gyda ffrindiau neu berthnasau
- 1.48 miliwn o ymwelwyr dydd.

5.1.17 Er y bu gostyngiad amlwg yn nifer yr ymwelwyr sy'n aros, nid yw hyn i'w weld yn unigryw i Geredigion. Ystyrir bod y gyfres o bolisïau twristiaeth yn y CDLl (gyda mân newidiadau wedi'u cynnig yn y papur pwnc twristiaeth) yn cefnogi'r amcan, ac mae'r CDLl yn parhau i hyrwyddo, datblygu a gwella

Draft

cyfleoedd ar gyfer twristiaeth gynaliadwy ac amgylchedd gyfeillgar, cyfleusterau hamdden a difyrrwch yng Ngheredigion.

### Amcan Cynaliadwyedd 9a Cynyddu cyfleoedd i adeiladu sylfaen addysg a sgiliau Ceredigion

5.1.18 Mae strategaeth y CDLl yn parhau i hyrwyddo twf mewn lleoliadau cynaliadwy. Bydd newidiadau o ganlyniad i foderneiddio ysgolion yn cael eu hystyried yn yr Adolygiad o'r CDLl.

5.1.19 Yng Ngheredigion mae'r nifer sy'n ennill cymwysterau NVQ wedi gostwng ar gyfer pob NVQ a chymwysterau eraill, a gwelwyd ychydig o gynnydd yn y categori dim cymwysterau. Wrth gymharu Ceredigion â'r cyfartaleddau i Gymru, mae gan boblogaeth Ceredigion y lefelau uchaf o gymwysterau NVQ a lefelau is o gymwysterau eraill. Yn ogystal, dim ond 7.6% o boblogaeth Ceredigion sydd â dim cymwysterau o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 8.7%.

5.1.20 Nid oes unrhyw bryderon ynghylch strategaeth a pholisi'r CDLl mewn perthynas â'r amcan hwn.

### Amcan Cynaliadwyedd 12a Hybu economi fywiog ac amrywiol

5.1.21 Er i'r dirwasgiad economaidd achosi i'r nifer sydd mewn cyflogaeth ostwng o 69.6% yn 2010 i 61.3% yn 2011/2012, bu cynnydd graddol ers hynny yn nifer y bobl mewn cyflogaeth. Mae'r cyfnod monitro hwn yn dangos cynnydd yng nghanran y bobl sy'n economaidd weithgar mewn cyflogaeth o 69% (2016) i 69.7% (2017). Efallai fod canran y bobl economaidd weithgar mewn cyflogaeth yn ymddangos yn isel gan ei bod yn is na chyfartaledd Cymru (76%) a'r Deyrnas Unedig (78.4%), ond mae gan Geredigion boblogaeth gymharol uchel o fyfyrwyr sy'n cyfrannu at ganran sylweddol o'r unigolion hynny nad ydynt mewn cyflogaeth.

5.1.22 Nid yw'r tâl wythnosol gros ar gyfer gweithwyr amser llawn wedi amrywio'n fawr ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu. At hynny, gan fod ffigurau Ceredigion yn deillio o ddata arolwg ar gyfer ardal fach, gellir priodoli'r newid flwyddyn ar ôl



Draft

blwyddyn i amrywiadau'r sampl yn hytrach na thystiolaeth o newid go iawn mewn incwm. Er gwaethaf hynny, mae cyflogau yng Ngheredigion yn parhau i fod yn is na chyfartaledd Cymru a'r DU, ac mae twf tybiedig hefyd yn is na chyfradd flynyddol gyfartalog chwyddiant ar gyfer y cyfnod hwn.

5.1.23 O ran datblygu'r safleoedd cyflogaeth a neilltuwyd yn y CDLl, erbyn hyn mae 49% o'u harwynebedd wedi'i ymrwymo ar gyfer datblygu, ac mae 52% o'r unedau wedi cael eu cwblhau. Cafodd y rhan fwyaf o'r unedau y cofnodwyd eu bod wedi'u hadeiladu eu cwblhau cyn mabwysiadu'r CDLl gan fod llawer o'r safleoedd cyflogaeth a neilltuwyd yn y CDLl wedi cael eu nodi er mwyn caniatáu ar gyfer ailddatblygu a/neu resymoli eu defnyddiau presennol mewn modd cydgysylltiedig. Mae hon yn sefyllfa foddhaol ar yr adeg hon yng nghyfnod y cynllun.

5.1.24 Mae cyfraddau siopau gwag yn amrywio'n fawr rhwng canol trefi. 14.9% yw cyfradd gyfartalog siopau gwag yng nghanol trefi Ceredigion. Mae'r ffigur hwn yn cymharu â 13.6% (2017), 7.6% (2016), 9.1% (2015) a 11.9% (2014). Mae hyn yn gyfwerth â chyfartaledd siopau gwag y Deyrnas Unedig a oedd, yn ôl y Local Data Company, yn 12.3% ym Mehefin 2015. Felly, ac eithrio Llandysul (28.6%) a Thregaron (21.4%) mae holl ganol trefi Ceredigion yn perfformio'n well na'r cyfartaledd cenedlaethol ac, yn gyffredinol, mae'r sefyllfa yn gadarnhaol, yn enwedig gan fod gan Aberystwyth, sef canolfan siopa fwyaf Ceredigion o bell ffordd, gyfradd siopau gwag o 9.9% yn unig.

5.1.25 Mae prif ffryntiadau manwerthu a ffynonellau manwerthu eilaidd Ceredigion, sy'n bodoli yn Aberystwyth ac Aberteifi yn unig, hefyd yn rhoi darlun amrywiol. Gweler Papur Pwnc Manwerthu 2018 am ragor o wybodaeth. Ond, yn gryno, ym mhrif ffryntiadau Aberystwyth mae canran y defnyddiau manwerthu yn amrywio o 88.9% i 42.9%, ac o 76.9% i 26.7% yn y ffryntiadau eilaidd. Yn Aberteifi, mae canran y defnyddiau manwerthu yn y prif ffryntiadau yn 76% yn nwy ardal y prif ffryntiadau manwerthu, ond mae ei ffryntiadau eilaidd yn amrywio rhwng 90.9% a 28.6%.

5.1.26 Dylid nodi hefyd bod y dangosydd yn monitro perfformiad defnyddiau A1 yn unig. Mae Polisi LU21 yn diffinio manwerthu fel dosbarth A ac nid A1 yn

Draft

benodol, ac mae'r polisi yn cael ei gymhwyso felly. Os ydych yn ystyried defnyddiau dosbarth A (ac nid A1 yn unig) gallai prif ffryntiadau a ffryntiadau eilradd yn Aberystwyth ac Aberteifi fod yn llawer uwch na'r gofyniad o 75% a 50%.

5.1.27 Wrth ystyried defnyddiau dosbarth A (gan gynnwys dosbarthiadau defnydd A1, A2 ac A3), mae'r prif ffryntiadau yn Aberystwyth yn amrywio o 80 -100% (91.4% wedi'i gyfuno), ac yn Aberteifi 95.8 -100% (98% wedi'i gyfuno), ac mae'r ffryntiadau eilradd yn Aberystwyth yn amrywio o 80 -100% (89.2% wedi'i gyfuno) ac yn Aberteifi maent yn amrywio o 71.4 -100% (89.3% wedi'i gyfuno). Mae'r darlun hwn yn dangos bod pob ffryntiad yn uwch na'r targedau polisi gofynnol.

5.1.28 Mae arolygon ymwelwyr wedi cael eu cynnal yn Aberystwyth bob blwyddyn ers 2012. Nodir na chafodd pob lleoliad ei gofnodi'r flwyddyn hon na'r llynedd, fodd bynnag, o'r lleoliadau a gafodd eu cofnodi mae cyfanswm nifer yr ymwelwyr yn debyg i'r blynyddoedd blaenorol. Roedd cyfanswm yr ymwelwyr a gofnodwyd yn 2017 (12,351) yn gadarnhaol (yn enwedig gan fod lleoliadau'r tŵr cloc wedi cael eu monitro am hanner yr amser yn unig oherwydd diffyg arolygwyr), ac yn uwch na'r hyn a gofnodwyd yn 2016 (10,144) a 2015 (9886). Er y canlyniad cadarnhaol hwn, yn wyneb cyfnod cymharol fyr ar gyfer cynnal yr arolwg, nid oes modd dod i unrhyw gasgliadau o bwys ar hyn o bryd. Gallai agor Tesco Super Store a Marks and Spencers (datblygiad Dan Dre) gael effaith ar batrymau ymwelwyr yn Aberystwyth, ac mae'n ymddangos bod y cynnydd arwyddocaol yn nifer yr ymwelwyr i'r dref yn cadarnhau hynny.

5.1.29 Mae yna arwyddion bod darlun cymysg o ran twf yn yr economi a'r farchnad swyddi yng Ngheredigion. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i ddweud ai tuedd hirdymor yw hon ac a oes cysylltiad achosol rhyngddo o gwbl a gweithredu'r CDLl. Er gwaethaf yr ansicrwydd hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y CDLl yn cael effaith negyddol ar yr economi leol ac felly, yng nghyd-destun yr AAS/AG, nid yw effaith gyffredinol y CDLl yn creu unrhyw bryderon ar hyn o bryd.

Draft

## 5.2 Newidiadau i Bolisi a Deddfwriaeth / Polisi a Deddfwriaeth newydd

5.2.1 Ers i'r CDLl gael ei adneuo, mae'r ddeddfwriaeth/polisi/cyfarwyddyd canlynol wedi cael eu rhyddhau/diweddaru.

### Newidiadau Deddfwriaethol

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

5.2.2 Erbyn hyn mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob prosiect, polisi a chynllun ystyried pedair colofn o gynaliadwyedd, sef llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

5.2.3 Mae'r Ddeddf yn edrych ar y nodau hirdymor ac yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus gydnabod pwysigrwydd cydweithio â phobl a chymunedau, ynghyd â gweithio gyda'i gilydd i greu dull mwy cydgysylltiedig a chyfyngu ar broblemau. Mae'n rhoi yn ei lle yr 'egwyddor datblygu cynaliadwy' sy'n ystyried bod "rhaid i'r corff weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ateb eu hanghenion eu hunain".

5.2.4 Mae saith nod llesiant wedi cael eu sefydlu:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

5.2.5 Mae hyn yn atgyfnerthu'r polisïau o fewn y CDLl ac nid yw unrhyw newidiadau i'r CDLl yn ofynnol ar hyn o bryd.

Draft

## Polisi Cenedlaethol

### Adnewyddu Economaidd: cyfeiriad newydd (2010)

5.2.6 Hon yw'r strategaeth economaidd ddiweddaraf gyda'r nod o wneud Cymru yn "un o'r lleoedd gorau yn y byd i fyw a gweithio." Mae'n disodli'r ddogfen bolisi *Cymru: Economi yn Ffynnu* a gyhoeddwyd yn 2005.

5.2.7 Ceir pum blaenoriaeth allweddol a amlinellir yn y strategaeth:

- buddsoddi mewn seilwaith cynaliadwy o safon uchel
- gwneud Cymru yn lle mwy deniadol i wneud busnes
- ehangu a dyfnhau'r sylfaen sgiliau
- hyrwyddo arloesi
- targedu'r cymorth busnes a gynigiwn

5.2.8 Roedd y strategaeth hon hefyd wedi ceisio adolygu polisi cynllunio ar gyfer datblygu economaidd er mwyn sicrhau llwyddiant datblygu economaidd mewn perthynas â Pholisi Cynllunio Cymru.

### TAN 6: Nodyn Cyfarwyddyd Ymarfer (2011)

5.2.9 Mae'r Cyfarwyddyd Ymarfer hwn yn darparu rhagor o wybodaeth am TAN 6. Amcan y canllaw hwn yw cynorthwyo ymgeiswyr sy'n ceisio caniatâd cynllunio ac awdurdodau cynllunio lleol i ddeall a dehongli'r agwedd arbennig hon ar y polisi tai gwledig.

5.2.10 Mae'r pwyntiau allweddol a'r newidiadau a godwyd gan y nodyn cyfarwyddyd yn cynnwys y canlynol:

- Ceir polisi hir o gyfyngu cyffredinol ar ddatblygiadau achlysurol yng nghefn gwlad.
- Mae eithriadau i'r polisi cyfyngu er mwyn ateb anghenion arbennig wedi cael eu hestyn o ffermio a choedwigaeth i ystod ehangach o fentrau gwledig fel rhan o bolisi cynhwysfawr i ddarparu cyflenwad o dai fforddiadwy sy'n gyson â'r anghenion a nodwyd.
- Mae anheddau mentrau gwledig yn parhau i gael eu heithrio yn y polisi cyffredinol ac mae angen cyfiawnhad arbennig ar eu cyfer. Mae profi

Draft

anghenion gweithredol hanfodol a chynaliadwyedd economaidd yn parhau i fod yn sail ar gyfer yr eithriad.

- Yn gyfochrog â chwmpas ehangach yr eithriad i'r polisi, ceir estyniad o'r mesurau rheoli dros feddiannaeth anheddau a ganiateir yn y dyfodol er mwyn eu gwarantu ar gyfer budd parhaus y gymuned wledig.

**Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid (2013)**

5.2.11 Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yw fframwaith adnewyddu diweddaraf Llywodraeth Cymru. Y weledigaeth yw "dylai pawb yng Nghymru fyw mewn cymunedau â chysylltiadau da, bywiog, llawn addewid a chynaliadwy gydag economi leol gryf ac ansawdd bywyd da".

5.2.12 Mae'r strategaeth yn amlinellu nifer o ganlyniadau cenedlaethol i gyflawni ei nodau gan gynnwys:

- lefelau gwell o weithgarwch economaidd a mwy o swyddi;
- economïau lleol cryf ac amrywiol, lle mae'r sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yn gweithio gyda'i gilydd;
- cymunedau sydd â chysylltiadau da, gan gynnwys cysylltiadau trafnidiaeth a chysylltiadau band eang;
- defnydd cynaliadwy o'r amgylchedd naturiol er mwyn sefydlu ffyrdd o gynhyrchu ynni a bwyd yn lleol;
- sector preifat a mentrau cymdeithasol llewyrchus;
- canol trefi a chymunedau arfordirol llwyddiannus;
- amgylchedd hanesyddol a naturiol sy'n cael ei reoli'n dda, sy'n cyfrannu at gymeriad unigryw tirwedd ac aneddiadau Cymru a lle mae treftadaeth a chymeriad hanesyddol yn cael eu diogelu, eu gwerthfawrogi a'u cynnal

5.2.13 Yn ogystal, ceir tair egwyddor allweddol ar gyfer adfywio:

- Partneriaeth, sy'n golygu bod yr holl sectorau'n cyfathrebu â'i gilydd yn effeithiol ac yn cydweithio, gan ddefnyddio arferion da, gan arddel cydraddoldeb, ac arloesi;

Draft

- Strategaeth, a ategir gan raglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac sy'n cyfuno arweinyddiaeth ddeinamig â llywodraethu cadarn, gan gynnwys gwaith monitro a gwerthuso, er mwyn sicrhau gwerth am arian;
- Datblygu cynaliadwy, sef prif egwyddor drefniadol Llywodraeth Cymru, sy'n galluogi buddsoddiad yn y tymor hir drwy brosiectau a gynllunnir ac a gyflawnir yn lleol, o fewn strategaeth gyffredin a rennir.

5.2.14 Ceir tair blaenoriaeth brys ar gyfer buddsoddiad wedi'i dargedu, sef canol trefi sy'n gwasanaethu trefi'r 21ain ganrif, cymunedau arfordirol a chlystyrau Cymunedau'n Gyntaf.

5.2.15 Mae'r strategaeth yn ystyried manwerthu yn uniongyrchol yn yr adran "Canol trefi sy'n gwasanaethu trefi'r 21ain ganrif". Mae'r strategaeth yn ystyried bod angen i ni gefnogi ein canol trefi er mwyn archwilio a darganfod dyfodol gwahanol, dyfodol amgen, gan ystyried:

- Dros y 10 mlynedd nesaf, rydym am ganolbwyntio ar helpu'r stryd fawr i arallgyfeirio a gwneud penderfyniadau anodd.
- Byddwn hefyd yn atgyfnerthu'r hyn sy'n ei gwneud yn arbennig.
- Nid yw ein trefi yn mynd i allu dibynnu ar fanwerthu'n unig; mae angen i ni ddatblygu ein trefi'n lleoedd y mae pobl am fyw, gweithio a hamddena ynddynt.
- Mae angen i'n trefi ymateb yn gryf i'r heriau sy'n eu hwynebu. Ni ddylem ystyried y Rhyngrwyd yn fygythiad mwyach. Mae angen ei ystyried yn gyfle, i'w groesawu ac i fanteisio arno.
- Mae angen i'n trefi ddatblygu nodweddion arbenigol, pwyntiau gwerthu unigryw, rheswm i bobl ymweld â nhw.
- Bydd hyn yn cynnwys economi fwy amrywiol a bywiog gyda'r nos, a sicrhau bod gwasanaethau fel iechyd ac addysg yn cael eu darparu fwyfwy o ganol trefi.

5.2.16 Yn olaf, mae rhan o gymorth fframwaith Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid ar gyfer canol trefi yn cynnwys Cronfa Benthyciadau Canol Trefi o £5m i geisio helpu i adfywio canol trefi ar draws pedwar awdurdod lleol, gan gynnwys Ceredigion, Sir Benfro, Powys a Sir Fynyw, gyda phob un yn

Draft

derbyn benthyciad o £1.25m. Cafodd y gronfa benthyciad hon ei defnyddio i gaffael safle depo Arriva sydd wedi cael ei becynnu gyda thir cyngor cyfagos bellach a'i farchnata fel cyfle datblygu. Mae cyllid pellach yn cael ei ddefnyddio ar gyfer prosiectau canol tref yn y dyfodol – i'w pennu / datgelu.

**Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 23 Datblygu Economaidd a Pholisi Cynllunio Cymru Pennod 7 Diweddariad (2014)**

5.2.17 Mae TAN 23 yn darparu cyngor ar y polisi cynllunio cenedlaethol ar ddatblygu economaidd a amlinellir ym Mholisi Cynllunio Cymru. Mae'r TAN yn darparu arweiniad i awdurdodau cynllunio lleol ar:

- ddatblygu amcanion cynllunio economaidd lefel uchel
- asesu buddion economaidd datblygiad newydd
- datblygu economaidd a'r economi wledig
- paratoi sylfaen dystiolaeth ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol
- creu gweledigaeth datblygu economaidd ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol
- pennu cyflenwad tir cyflogaeth

5.2.18 Gall y buddion economaidd sy'n gysylltiedig â datblygu gael eu lledaenu'n ddaearyddol ac ymhell y tu hwnt i'r ardal lle y lleolir datblygu. O ganlyniad mae'n hanfodol bod y system gynllunio yn cydnabod, ac yn rhoi pwysau i'r buddion economaidd sy'n gysylltiedig â datblygu newydd.

5.2.19 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cynghori y dylai cynllunio ar gyfer defnyddiau tir economaidd geisio darparu'r tir y mae'r farchnad yn gofyn amdano, oni bai bod rhesymau da i'r gwrthwyneb. Os yw'r marchnadoedd yn gweithio'n dda, bydd hyn yn helpu i sicrhau'r effeithlonrwydd a thwf economaidd mwyaf posibl.

5.2.20 Gall methiannau'r farchnad arwain at sefyllfaoedd lle mae grymoedd y farchnad yn tanseilio amcanion amgylcheddol a chymdeithasol i raddau annerbyniol. Dylai'r system gynllunio weithio i gywiro neu leddfu'r methiannau hyn.

5.2.21 Gall achosion o'r fath fod yn gyffredinol ac mae Polisi Cynllunio Cymru yn tynnu sylw at gywiriadau mewn nifer o leoedd. Ymysg pethau eraill, mae'r

Draft

polisi yn cynghori y dylai cynllunio arwain datblygiadau er mwyn iddo gynnig budd i gymunedau difreintiedig, canolbwyntio ar weithgareddau pobl-ddwys mewn canol trefi a chyfateb swyddi â thai a seilwaith. Nid yw grymoedd y farchnad ar eu pennau eu hunain yn cyflawni'r amcanion cynaliadwy hyn o reidrwydd.

5.2.22 Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys ystyriaethau cynllunio, i'w gweld yn y TAN.

**Rhaglen Datblygu Cymru Wledig 2014 – 2020 (2015)**

5.2.23 Cafodd Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Cymru Wledig 2014-2020 ei fabwysiadu gan y Comisiwn Ewropeaidd ar ddydd Mawrth 26 Mai 2015.

5.2.24 Mae'n rhaglen fuddsoddi 7 mlynedd sy'n ceisio gwella cydnerthedd a hyrwyddo newid trawsnewidiol mewn amaethyddiaeth, coedwigaeth a chymunedau gwledig. Gan ddod â bron biliwn o bunnoedd i Gymru wledig, bydd yn cefnogi ystod eang o weithgareddau sydd:

- yn gwella gallu'r sector amaethyddiaeth a choedwigaeth i gystadlu
- diogelu a gwella'r amgylchedd gwledig
- meithrin busnesau gwledig cystadleuol a chynaliadwy a chymunedau gwledig llewyrchus

5.2.25 Ceir chwe Blaenoriaeth Datblygu Gwledig ac mae'r fframwaith hwn yn cyfateb â'r rhain:

- meithrin trosglwyddo gwybodaeth ac arloesi mewn amaethyddiaeth, coedwigaeth, ac ardaloedd gwledig
- gwella cystadleurwydd yr holl fathau o amaethyddiaeth a gwella hyfywedd ffermydd
- hyrwyddo trefniadaeth y gadwyn fwyd a rheoli risg mewn amaethyddiaeth
- adfer, cadw a gwella dibyniaeth ecosystemau ar amaethyddiaeth a choedwigaeth

Draft

- hyrwyddo effeithlonrwydd adnoddau a chefnogi'r newid tuag at economi carbon isel a hinsawdd gydnerth yn y sectorau amaethyddiaeth, bwyd a choedwigaeth
- hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, lleihau tlodi a datblygu economaidd mewn ardaloedd gwledig.

**Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 10**

5.2.26 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Rhifyn 10 Polisi Cynllunio Cymru.

*5.2.27 Mae Polisi Cynllunio Cymru 10 yn datgan y dylai polisïau hyrwyddo amrywiaeth o ddefnyddiau mewn canolfannau. Mae pwyslais mawr ar ganolfannau bywiog a hyfyw. Er mwyn cyflawni hyn, dylent gael eu nodweddu gan amrywiaeth o weithgarwch a defnyddiau a ddylai gyfrannu at les a llwyddiant canolfan gan leihau'r angen i deithio. Dylai polisïau CDLl gynnwys polisïau sy'n disgrifio'r mathau o ddefnydd sy'n debygol o fod yn dderbyniol mewn prif ardaloedd siopa ac ardaloedd siopa eilaidd. Er mwyn cyflawni amrywiaeth o ddefnyddiau a gweithgareddau, mae'n bosibl y bydd angen agwedd hyblyg at gynllunio.*

5.2.28 Mae CDLl Ceredigion yn cyfateb yn fras â'r hyn a gynigir, felly er nad oes angen unrhyw newidiadau mawr er mwyn cydymffurfio â'r polisïau diwygiedig hyn, ar adeg ysgrifennu strategaeth a ffefrir y CDLl, bydd angen gwneud newidiadau i'r polisïau manwerthu er mwyn adlewyrchu'r newidiadau a gynigir yn y Papur Pwnc Manwerthu sy'n amlinellu prif ffryntiadau siopa a ffryntiau siopa eilaidd segur yng nghyd-destun Ceredigion.

5.2.29 Dylai'r diwygiadau arfaethedig alluogi mwy o hyblygrwydd yn y canolfannau manwerthu a rhoi'r offer angenrheidiol i awdurdodau cynllunio lleol er mwyn iddynt allu derbyn a gwrthod ceisiadau yn unol â'r hyn sydd orau ar gyfer bywiogrwydd, hyfywedd a ffyniant eu canolfannau manwerthu,

Draft

## Polisi Rhanbarthol

### Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Canolbarth Cymru (2015)

5.2.30 Mae'r Cynllun yn ceisio mynd i'r afael â'r materion a'r cyfleoedd allweddol ar gyfer Canolbarth Cymru:

- Anawsterau o ran cael mynediad i gyflogaeth a gwasanaethau, yn enwedig ar gyfer y bobl hynny sydd heb gar ac oherwydd yr angen i deithio pellterau hir;
- Mae cyfleoedd gwael ar gyfer goddiweddyd, mannau cul a chyfyngiadau ar y rhwydwaith ffyrdd strategol yn arwain at amserau teithio hwy ac amserau teithio llai dibynadwy ar gyfer symud pobl a nwyddau o fewn y rhanbarth ac i gyrchfannau allweddol y tu allan i Ganolbarth Cymru.
- Mwy o risg i gydnerthedd y rhwydwaith trwy effeithiau newid hinsawdd, gan gynnwys perygl llifogydd.
- Cyfleoedd i gynyddu rhannu dulliau teithio trwy ddulliau teithio llesol a gwella iechyd a llesiant y gymuned leol a pharhau i wella'r cofnod diogelwch ffyrdd.

5.2.31 Mae'r cynllun yn ceisio datblygu'r fframwaith trafnidiaeth ar gyfer Canolbarth Cymru, gyda rhaglen fanwl o gynlluniau hyd at 2030, a nifer o nodau, gan gynnwys:

- gwella mynediad i gyrchfannau a marchnadoedd allweddol
- gwella mynediad i gyflogaeth a gwasanaethau
- gwella iechyd a llesiant trwy gynyddu lefelau cerdded a beicio
- dod â mwy o ddiogelwch ac ar yr un pryd dod â manteision a chadw'r effeithiau ar yr amgylchedd i'r lleiaf posibl

5.2.32 Dylid nodi bod y sefyllfa gyllido wedi'i chyfyngu ac felly mae'r weledigaeth ar gyfer y cynllun wedi'i gyfyngu i'r buddsoddiadau sydd ar gael.

### Ardal Twf Lleol Dyffryn Teifi (2015)

5.2.33 Mae Ardal Twf Lleol Dyffryn Teifi wedi cael ei sefydlu fel model amgen i Barthau Menter ar gyfer cymunedau gwledig. Mae grŵp gorchwyl a gorffen wedi cael ei sefydlu i ystyried yr argymhellion ar gyfer gweithredu, a

Draft

sefydlwyd grŵp dilynol yn Nhachwedd 2014 i oruchwylio gweithredu'r strategaeth Tuag at Ddyfodol Diwastraff.

5.2.34 O fewn yr adroddiad gwreiddiol, cafodd 26 o argymhellion eu hystyried a'u hamlinellu. Mae argymhelliad 23 yn bwysig oherwydd ei fod yn amlinellu'r angen i fonitro ymhellach er mwyn sicrhau bod y CDLl a pholisïau yn unol ag Adroddiad Tuag at Ddyfodol Diwastraff. Gellir ei gyflawni trwy'r Adroddiad Monitro Blynyddol.

5.2.35 Roedd y grŵp gorchwyl a gorffen wedi adrodd ei gasgliadau ond ar hyn o bryd nid yw unrhyw un ohonynt wedi cael ei weithredu arno ac mae'r ardal twf i'w wedi yn segur ar hyn o bryd.

**Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru (2015)**

5.2.36 Sefydlwyd Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru yn 2015 i hyrwyddo swyddi, twf a'r economi ehangach yn ardal Canolbarth Cymru. Mae'r blaenoriaethau yn darparu rhaglen ryngysylltiedig o weithgareddau y mae'n ofynnol iddynt ddarparu twf economaidd cynaliadwy, swyddi mwy cynhyrchiol a chefnogi cymunedau llewyrchus yng Nghanolbarth Cymru erbyn 2033. Mae Canolbarth Cymru yn rhanbarth mawr a gwledig yn bennaf sy'n cynnwys ardaloedd Awdurdod Lleol Powys a Cheredigion. Mae'n cyfrif am 39% o dirfas Cymru ond dim ond 7% o boblogaeth Cymru. Mae treftadaeth ddiwylliannol gryf gan y rhanbarth a chyfran uchel o siaradwyr Cymraeg.

5.2.37 Mae gan Ganolbarth Cymru nifer o gryfderau sector a allai sbarduno twf economaidd yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Twristiaeth – mae Strategaeth ar gyfer Twristiaeth Llywodraeth Cymru a'r fenter Ffordd Cymru yn tynnu sylw at botensial y sector a'r dyheadau i sicrhau twf o 10% mewn gwerth twristiaeth yng Nghymru erbyn 2020. Ceir cyfleoedd i adeiladu ar asedau naturiol y rhanbarth er mwyn arallgyfeirio a chynyddu gwerth sector twristiaeth y rhanbarth.
- Gweithgynhyrchu – mae dros 6,600 o bobl yn cael eu cyflogi yn y sector gweithgynhyrchu yng Nghanolbarth Cymru, ac mae hanner o'r rheiny o fewn y sector gweithgynhyrchu uwch. Mae'r gwyddorau bywyd yn gryfder

Draft

o fewn Ceredigion gyda phresenoldeb cwmnïau gan gynnwys Protherics UK Ltd ac Aber Instruments.

- Amaethyddiaeth a'r economi ar y tir – mae'r sector hwn o'r pwys mwyaf i economi Canolbarth Cymru, gan gyflogi dros 58,000 o bobl ac mae'n allweddol i ddiwylliant a chymunedau'r rhanbarth. Mae'r sector yn wynebu heriau ac ansicrwydd mawr o ganlyniad i BREXIT. Ceir cyfleoedd i arallgyfeirio ac ychwanegu gwerth i'r sector amaeth trwy barhau i gefnogi arallgyfeirio, ychwanegu gwerth i gynnyrch amaethyddol a manteisio ar gryfderau ymchwil a datblygu Prifysgol Aberystwyth a Chanolfan Bwyd Cymru, Horeb.
- Amddiffyn a diogelwch – mae Canolbarth Cymru yn lleoliad pwysig ar gyfer gweithrediadau amddiffyn y DU, gan fanteisio ar leoliad anghysbell a safleoedd diogel yr ardal. Mae'r rhanbarth yn gartref i weithgarwch cysylltiedig ag amddiffyn arloesol, gyda gofod awyr ar wahân ar gyfer Systemau Cerbydau Awyr a Reolir o Bell oddi ar arfordir Ceredigion (Aber-porth). At hynny, mae'r ardal yn gartref i weithgarwch gweithgynhyrchu uwch sy'n gysylltiedig ag amddiffyn a diogelwch. Mae ganddi gryfderau academaidd hefyd sy'n darparu cyfleoedd i sicrhau lle Canolbarth Cymru fel canolfan y diwydiant amddiffyn a diogelwch.
- Sectorau sylfaen – yn seiliedig ar ddemograffeg hirdymor y rhanbarth, bydd pwysigrwydd yr economi sylfaen yn tyfu'n sylweddol, bydd y boblogaeth sy'n heneiddio yn debygol o roi pwysau cynyddol ar gyflenwi gwasanaethau yn y sectorau cymdeithasol a gofal iechyd. Fodd bynnag, mae'r duedd hon hefyd yn cynnig cyfleoedd go iawn i ddangos dulliau cadarnhaol at wynebu heriau cyflenwi gwasanaethau ac fel ffordd o harneisio sgiliau a phrofiad y genhedlaeth hŷn yng Nghanolbarth Cymru.

5.2.38 O ran cefnogi cyfleoedd cyflogaeth yng Ngheredigion, mae'n bwysig nodi bod y farchnad safleoedd ac adeiladau cyflogaeth yn wahanol yn y rhanbarthau cyfagos, oherwydd bod y rhan fwyaf o'r galw yn dod gan fusnesau sydd eisoes wedi'u sefydlu yn y rhanbarth. Mae angen cael rhaglen hirdymor o fuddsoddiad wedi'i dargedu ar safleoedd ac adeiladau cyflogaeth i gefnogi twf economaidd yn y dyfodol yn y rhanbarth er mwyn helpu i roi sylw i faterion methiant y farchnad a galluogi buddsoddiad gan y



Draft

sector preifat. Enghraifft bwysig o hyn yng Ngheredigion yw arallgyfeirio ffermydd a dwysau ffermio a'r economi ar y tir (gweler yr adran ar yr economi amaethyddol). Am y rheswm hwn, mae'n bwysig bod datblygiad amaethyddiaeth yn cael ei gefnogi.

**Dadansoddiad CAMPUS Canolbarth Cymru**

5.2.39 Mae gan Ganolbarth Cymru nifer o gryfderau a gwendidau ynghyd â heriau a gwendidau wrth drafod yr economi. Mae rhai o'r rhain wedi cael eu hamlygu gan Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru a'u nodi isod.

**<u>Cryfderau</u>**

- Cryfderau sectorau ar draws y rhanbarth, yn enwedig ym maes amaethyddiaeth, bwyd, twristiaeth, a gweithgynhyrchu uwch.
- Amgylchedd naturiol o safon uchel sy'n cefnogi sectorau allweddol (twristiaeth).
- Toreth o adnoddau naturiol.
- Ansawdd bywyd uchel yn gweithredu fel atyniad i'r ardal.
- Dwy brifysgol yn y rhanbarth.
- Mae 95% o waith ymchwil Prifysgol Aberystwyth o safon a gydnabyddir yn rhyngwladol neu uwch.
- Lefelau isel o amddifadedd cyffredinol.

**<u>Gwendidau</u>**

- Pobl oedran gweithio ifanc yn gadael y sir.
- Rhwydwaith trafnidiaeth y rhanbarth wedi'i gyfyngu gan gyflymder teithiau araf, gwasanaethau anaml, a phellterau hir o ganolfannau trefol mawr.
- Diffyg cysylltedd ffisegol a digidol – gwasanaeth gwael 3G a 4G mewn rhai ardaloedd yn y rhanbarth. Mae gan 78.1% o adeiladau yng Ngheredigion Fand Eang Cyflym Iawn lein sefydlog. 95% yw cyfartaledd y DU.
- Poblogaeth sy'n heneiddio ac yn dirywio.
- Tangyflogaeth, cyflogau isel, cynhyrchedd a chyflogaeth tymhorol mewn sectorau allweddol o gyflogaeth.
- Dibyniaeth uchel ar gyflogaeth yn y sector cyhoeddus.

**<u>Cyfleoedd</u>**

- Mabwysiadu technolegau newydd gan fusnesau e.e. sectorau sylfaen.
- Annog gweithwyr i gael dyrchafiad / lleihau tangyflogaeth.
- Twf yn y sector twristiaeth a phwyntiau gwerthu unigryw megis yr amgylchedd naturiol o safon uchel.
- Pwysigrwydd perthynol y sector cyhoeddus yn darparu cyfleoedd i fanteisio i'r eithaf ar effaith datblygu economaidd caffael sefydliad angori.
- Cyflwyno technoleg band eang a symudol ymhellach ar draws Canolbarth Cymru.

**<u>Bygythiadau</u>**

- Ansicrwydd ynghylch effaith Brexit ar sectorau allweddol a chyllid e.e. amaethyddiaeth.
- Tueddiadau demograffig yn arwain at boblogaeth oedran gweithio isel ac sy'n dirywio.
- Toriadau pellach i gyllidebau sector cyhoeddus yn wyneb pwysigrwydd y sector.
- Sylfaen economaidd cul (yn agored i sioc negyddol).
- Diffyg buddsoddi yn y seilwaith i gefnogi twf.

5.2.40 Y weledigaeth ar gyfer Canolbarth Cymru yw:

Erbyn 2033 bydd Canolbarth Cymru yn:

*"Rhanbarth mentrus ac unigryw sy'n darparu twf economaidd wedi'i ysgogi gan arloesi, sgiliau, cysylltedd a swyddi mwy cynhyrchiol sy'n cynnal cymunedau llewyrchus a dwyieithog."*

5.2.41 Bydd asedau unigryw Ceredigion yn cael eu hadeiladu arnynt trwy gydweithredu a gweithio integredig i sicrhau bod yr economi yn cael ei chydnabod gan y nodweddion canlynol:

- Mentrus – Bydd Canolbarth Cymru yn rhanbarth sy'n adeiladu ar ei mentergarwch i ddarparu'r sylfeini ar gyfer enillion cynhyrchiant. Bydd yn datblygu mentrau newydd, yn cefnogi busnesau sy'n bodoli sydd ag awydd i dyfu ac yn denu busnesau a buddsoddiad newydd i Ganolbarth Cymru.
- Unigryw – Bydd Canolbarth Cymru yn cael ei hystyried yn rhanbarth unigryw yng Nghymru. Mae'n ardal wledig yn bennaf gydag amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol unigryw sy'n cynnig ansawdd bywyd uchel i'w phreswylwyr ac sydd â chryfderau economaidd mewn meysydd megis amaeth-dechnoleg ac amddiffyn sy'n unigryw i Gymru. Mae gan y rhanbarth y potensial hefyd i fod yn batrwm ar gyfer datgarboneiddio a thwf glân yn y DU.
- Sgiliau – Bydd Canolbarth Cymru yn adeiladu ar ei gryfderau academaidd i ddatblygu gweithlu medrus sy'n ateb gofynion yr economi leol gan sicrhau bod preswylwyr lleol yn gallu aros yn y rhanbarth a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael.
- Arloesi – Bydd Canolbarth Cymru yn gweithio fel lle i brofi arloesi, cynhyrchion a phrosesau newydd sy'n seiliedig i gychwyn ar arbenigedd sy'n bodoli yn y sectorau amaeth-fwyd, diwydiannau ar y tir, ynni carbon isel, gweithgynhyrchu ac amddiffyn.
- Cysylltedd – Bydd seilwaith trafnidiaeth, ynni a digidol gwell gan Ganolbarth Cymru sy'n sicrhau mynediad i farchnadoedd ar gyfer nwyddau a gwasanaethau. Bydd buddsoddiad yn y seilwaith trafnidiaeth

Draft

a gwasanaethau yn rhoi sylw i'r mannau cul, yn gwella amserau ac amlder teithio. Bydd ynni a chysylltedd digidol gwell yn helpu i sefydlu busnesau newydd, yn cynyddu effeithlonrwydd sylfaen busnesau presennol Canolbarth Cymru ac yn gwella mynediad i wasanaethau.

- Swyddi mwy cynhyrchiol – bydd Canolbarth Cymru yn creu'r amodau i helpu busnesau i gynhyrchu niferoedd cynyddol o gyfleoedd cyflogaeth mwy cynhyrchiol. Caiff swyddi o ansawdd gwell gyda thâl uwch eu blaenoriaethu. Bydd cyfanswm cynhyrchiant yn gwella, gan gynyddu incwm gwariadwy preswylwyr Canolbarth Cymru a helpu i ddarparu twf economaidd cynhwysol yr un pryd.
- Cymunedau llewyrchus – Bydd manteision twf economaidd yn cael eu cadw lle'n bosibl o fewn y rhanbarth. Bydd cyfleoedd ar gyfer creu cyfoeth a chyflogaeth yn hygyrch i breswylwyr Canolbarth Cymru ac wedi'u lledaenu'n gyfartal ar draws y rhanbarth.

**Arloesi**

5.2.42 Rhoddir pwyslais mawr ar arloesi oherwydd dyma ffocws Amcan 1: Canolbarth Cymru Arloesol a Medrus. Mae hyn yn cynnwys datblygu cyfleoedd busnes newydd, cynhyrchion, gwasanaethau, sgiliau ac mae'n cynhyrchu swyddi gwerth uwch. Bydd yr amcan hefyd yn cynnwys sefydlu system sgiliau seiliedig ar dystiolaeth ac ymrwymedig ar gyfer Canolbarth Cymru sy'n ymateb i anghenion cyflogwyr.

5.2.43 Mae arloesi yn ganolog i uchelgais Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru i ddarparu twf economaidd, swyddi mwy cynhyrchiol a chymunedau llewyrchus. Mae arloesi yn arf ar gyfer adeiladu ar asedau allweddol y rhanbarth i ddatblygu nwyddau a gwasanaethau newydd, hybu entrepreneuriaeth, rhyngwladoli economi'r rhanbarth a gwella rhagolygon economaidd hirdymor y rhanbarth.

5.2.44 Yn benodol mae gan Ganolbarth Cymru a Cheredigion nifer o gryfderau ymchwil a datblygu a sector a all helpu i yrru arloesi a chynhyrchiant rhanbarthol. Mae'r rhain yn cynnwys:

Draft

- Amaeth-dechnoleg a biowyddoniaeth – Mae gan Ganolbarth Cymru arbenigedd arweiniol ym maes ymchwil a datblygu yn y sectorau amaeth-dechnoleg a biowyddoniaeth gyda chanolfannau ymchwil o safon fyd-eang megis Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS). Ceir cyfleoedd i fanteisio ymhellach ar gryfderau ymchwil sector amaeth-dechnoleg a biowyddoniaeth y rhanbarth. Byddai Canolfan Arloesi Amaethyddol yn helpu i ddatblygu cynhyrchion a phrosesau newydd i hwyluso arallgyfeirio ffermydd, manteisio i'r eithaf ar dechnolegau digidol a dadansoddeg data, a rhoi sylw i anghenion sgiliau busnesau sy'n bodoli a busnesau newydd yn sector amaeth-dechnoleg a bwyd Canolbarth Cymru.
- Gwyddor milfeddygaeth – Mae gan Ganolbarth Cymru gryfderau ym maes milfeddygaeth trwy Ganolfan Milfeddygaeth Cymru a'r datblygiad Hyb Milfeddygaeth £4.2m. Mae angen buddsoddiad pellach mewn milfeddygaeth ac mae Canolbarth Cymru mewn sefyllfa ddelfrydol i fod yn arweinydd ym maes darparu gwasanaethau i'r sector amaeth a hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o filfeddygon, gan felly rhoi sylw i her eang y DU o recriwtio a chadw milfeddygon. Felly byddai Campws Iechyd Anifeiliaid yn hyrwyddo arloesi ac yn rhoi sylw i'r prinder sgiliau critigol o fewn y sector amaeth hynod bwysig hwn.
- Sbectrwm Radio – Mae Ceredigion yn lleoliad pwysig ar gyfer gweithrediadau amddiffyn y DU, gan gynnwys gofod awyr neilltuedig ar gyfer Systemau Cerbydau Awyr a Reolir o Bell (RPAS) oddi ar arfordir Gorllewin Cymru. Mae Canolfan Sbectrwm, Arloesi, Peirianneg ac Arbrofi Genedlaethol (N-SIEEC) yn cynnig y potensial i hyrwyddo arloesi, datblygu cynhyrchion a chymwysiadau newydd, cynnal cydnerthedd, unplygrwydd a diogelwch er mwyn rhoi Canolbarth Cymru wrth wraidd Strategaeth Sbectrwm Llywodraeth y DU. Gall technoleg sbectrwm gael ei ddefnyddio ym maes roboteg, dronau a pheiriannau clyfar ym myd amaeth. Mae datblygiadau sbectrwm hefyd yn darparu cyfleodd i ddatblygu Canolfan Rhagoriaeth Cerbydau Awyr Di-griw a Dronau gyda rhaglen gysylltiedig o ymchwil a datblygu wedi'i hariannu.

Draft

- Gweithgynhyrchu – Mae gan Ganolbarth Cymru bresenoldeb gweithgynhyrchu arwyddocaol gyda dros 6,600 o bobl wedi'u cyflogi yn y sector. Mae'r rhanbarth yn gartref i fusnesau gweithgynhyrchu allweddol, gyda marchnadoedd arbenigol ym maes cynhyrchu bwyd, awtomeiddio a symudiad, peirianneg a thechnolegau newydd megis cerbydau wedi'u pweru gan hydrogen.

5.2.45 Mae sicrhau'r cyflenwad a'r lleoliad iawn o dir cyflogaeth ac eiddo masnachol er mwyn ateb anghenion busnes ar gael fel cydran hollbwysig wrth gefnogi twf a chynaliadwyedd yr economi ranbarthol. Mae dadansoddiad a dealltwriaeth o'r safleoedd cyflogaeth a'r farchnad eiddo yn hanfodol er mwyn sicrhau bod dull strategol ac wedi'i gynllunio yn cael ei fabwysiadu at gefnogi'r ddarpariaeth yn y dyfodol. Mae Adolygiad o Dir Cyflogaeth wedi cael ei gynnal sy'n nodi tir cyflogaeth yng Ngheredigion. Caiff y ddogfen hon ei diweddaru bob 4 blynedd.

5.2.46 Mae buddsoddiad mewn cynhyrchu a dosbarthu ynni carbon isel yn darparu cyfle sylweddol i gefnogi twf economaidd ac arallgyfeirio yng Nghanolbarth Cymru. Ar hyn o bryd mae hyn wedi'i lesteirio gan rwydwaith trosglwyddo a dosbarthu wedi ei danbweru. Mae buddsoddiad yn y seilwaith grid i gynyddu capasiti yn hollbwysig i gefnogi twf yn y tymor hir. Mae'r rhanbarth mewn sefyllfa dda i fanteisio ar gyfleoedd carbon isel a rheoli'r newid tuag at ddyfodol carbon isel a thwf glân. Ceir arbenigedd sylweddol yn y maes hwn ar draws y sectorau preifat, gwirfoddol a chyhoeddus, yn fwyaf arbennig y Ganolfan Technoleg Amgen a Phrifysgol Aberystwyth. Ar hyn o bryd ceir Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn y broses ymgynghori a fydd yn trafod ac yn cyfeirio at y materion hyn, a chaiff y sylfaen dystiolaeth economaidd ei diweddaru yn unol â hynny pan fydd yr ymgynghoriad wedi'i ryddhau.

5.2.47 Mae capasiti'r rhwydwaith presennol ar gyfer gwres a phŵer yn gyfyngiad mawr yng Nghanolbarth Cymru, gan gyfyngu ar y posibilrwydd o ran trosglwyddo a dosbarthu. Mae natur wledig y rhanbarth yn golygu bod mynediad grid i gwsmeriaid wedi'i gyfyngu a bod y diffyg capasiti yn debygol o gyfyngu ar dwf yn y dyfodol oni bai y rhoddir sylw i hyn. Mae'r Cyngor yn cynnal archwiliad ynni adnewyddadwy a bydd y materion strwythurol hyn yn

Draft

bwydo i mewn i'r sylfaen dystiolaeth a fydd yn barod ar gyfer adneuo'r cynllun.

**Harbwrs**

5.2.48 Mae arfordir Canolbarth Cymru yn gartref i rwydwaith o gyfleusterau harbwr sy'n ychwanegu at ddelwedd a photensial y rhanbarth yn y dyfodol. Mae harbwr Aberaeron yn rhoi hunaniaeth weledig unigryw i'r dref ac yn gweithredu fel atyniad mawr i ymwelwyr a thwristiaid. Mae harbwr Ceinewydd yn cefnogi masnach twristiaeth lewyrchus yn seiliedig ar ansawdd ei gynefin morol naturiol, tra bo gan Aberteifi hanes o longau a masnach. Ceir cyfleoedd arwyddocaol i ddenu buddsoddiad yn harbwrs y rhanbarth fel ffordd o arallgyfeirio'r cynnig twristiaeth a chynyddu'r enillion a chyfrannu at dwf economaidd yng Nghanolbarth Cymru.

## Polisi Lleol

**Ceredigion i Bawb: Ein Bywoliaeth, Ein Strategaeth Adfywio Economaidd 2014-2020 (2015)**

5.2.49 Mabwysiadodd y Cyngor ei strategaeth Ceredigion i Bawb: Ein Bywoliaeth, Ein Strategaeth Adnewyddu Economaidd ym Mehefin 2015. Nod y Strategaeth yw mynd i'r afael â rhai o'r heriau allweddol sy'n amlwg yn y sir, sef:

- Anhygyrchedd
- Poblogaeth sy'n heneiddio
- Gostyngiad sylweddol yn nifer y cofrestriadau ar gyfer TAW a chynnydd yn nifer y datgofrestriadau TAW
- Y gyfran leiaf o fusnesau gwybodaeth-ddwys yng Nghymru gyfan
- Lefelau cynhyrchiant isel
- Cyflogau bach
- Diffyg arweinyddiaeth gref a chyfeiriad clir

5.2.50 Mae'r strategaeth hon yn ceisio canfod ac integreiddio ei hasedau allweddol mewn ymgais i droi'r problemau economaidd-gymdeithasol hyn yn gyfleoedd i'r sir. Er bod y Strategaeth wedi ystyried cynnwys y CDLl i ac wedi cydnabod y gall y CDLl helpu i hwyluso ei nodau, ar hyn o bryd nid yw'n creu angen i ddiwygio'r CDLl ei hun.

Draft

## 5.3 Tystiolaeth

5.3.1 Ers i'r CDLl gael ei adneuo, mae'r dystiolaeth ganlynol wedi cael ei rhyddhau/diweddaru.

5.3.2 Mae Adolygiad o Dir Cyflogaeth Ceredigion wedi cael ei gwblhau gan asesu nodweddion meintiol ac ansoddol tir cyflogaeth ar hyd a lled y sir. Ceir trafodaeth bellach o'r canlyniadau isod. Mae'r gwaith hwn wedi sefydlu ble a faint o dir cyflogaeth sydd ar gael, gan gynnwys a yw'n tir adeiledig wedi'i neilltuo, neu a yw ar gael. Bydd yr astudiaeth yn bwydo i mewn i'r gwaith parhaus ar yr Astudiaeth Cyflogaeth Leol a Mwy sy'n cael ei gynnal o dan arweiniad Tyfu Canolbarth Cymru ac y disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn diwedd 2019, a bydd y canlyniadau yn bwydo i mewn i'r Cynllun Adnau.

**Arolwg o'r Llafurlu (2015)**

5.3.3 Gellir gweld canlyniadau'r Arolwg o'r Llafurlu cenedlaethol yma: https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/gor/2013265930/report.aspx

**Band Eang Cyflym Iawn Cymru (2016)**

5.3.4 Mae cyflwyno band eang yn parhau yng Ngheredigion. Mae gan oddeutu 50% o adeiladau ar draws y sir fynediad i fand eang cyflym iawn.

5.3.5 Mae'r rhan fwyaf o gyfnewidfeydd Ceredigion wedi cael eu galluogi a disgwylir i'r tair sy'n weddill gael eu galluogi eleni (2016). Mae gwaith yn parhau i gynyddu nifer yr adeiladau sydd wedi'u cysylltu. Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld ar superfast-cymru.com.

**Adolygiad o Dir Cyflogaeth (2019)**

5.3.6 Ar gyfer arolwg 2016 cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o gyfarwyddyd ac arferion gorau cenedlaethol a datblygwyd methodoleg asesu safle. Pwrpas yr adolygiad hwn oedd sicrhau bod yr Adolygiad o Dir Cyflogaeth yn cydymffurfio â chyfarwyddyd cynllunio Llywodraeth Cymru. Yn arbennig roedd yn adlewyrchu gofynion:

- Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 9 Tachwedd 2016

Draft

- Nodyn Cyngor Technegol 23 ar Ddatblygu Economaidd (2014)
- Cyfarwyddyd Ymarfer ar Adeiladu Sylfaen Dystiolaeth Economaidd i gefnogi Cynllun Lleol (2015)

5.3.7 Cwblhawyd Adolygiad o Dir Cyflogaeth yn Ebrill 2019. Mae'r adroddiad yn cynrychioli'r dadansoddiad cyntaf o'r data sylfaen o arolwg 2016/17. Ers y data sylfaen, cyhoeddwyd Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 10 yn Rhagfyr 2018. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi cael unrhyw effaith ar y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn flaenorol ar gyfer yr arolwg. At ddibenion yr adroddiad mae defnyddiau tir cyflogaeth yn cael eu cymryd i gynnwys y rhai yn Nosbarthiadau Defnydd B1, B2, B8, A2 (swyddfa) a defnyddiau Unigryw sy'n gysylltiedig â defnyddiau dosbarth B. Mae Adolygiad o Dir Cyflogaeth 2016/2017 yn cwmpasu:

- Pob un o safleoedd a neilltuwyd Cyflogaeth a Defnydd Cymysg CDLl Cyngor Sir Ceredigion
- Hap-safleoedd cyflogaeth o fwy na 0.5 ha yn y sir
- Pob safle cyflogaeth posibl dros 0.5 ha yn y sir

5.3.8 Yn ôl yr adolygiad a gynhaliwyd, ceir 220.89 ha ar hyd y sir o stoc cyflogaeth sy'n bodoli (wedi'i ddatblygu) a 62.37 ha pellach o dir heb ei ddatblygu sydd wedi'i neilltuo ar gyfer defnyddiau cyflogaeth naill ai trwy ddyraniad neu ganiatâd cynllunio. Mae'n bwysig nodi bod y dosbarthiad o dir cyflogaeth yn dangos bod y cyfle mwyaf i'w gael yn y lleoliadau mwyaf cynaliadwy, gyda'r gyfran fwyaf yn Aberystwyth sy'n dref bwysig yn rhanbarthol.

5.3.9 Roedd yr Adolygiad o Dir Cyflogaeth wedi asesu'r ffactorau ansoddol sy'n effeithio ar dir cyflogaeth ar hyd a lled y sir. Mae'r rhain yn cynnwys ansawdd yr amgylchedd a chysylltiadau trafnidiaeth sy'n gysylltiedig â'r safle ac a oes gan y safle ddefnyddiau cyfagos cadarnhaol neu negyddol. O hyn, gwelwyd bod 90% o'r safleoedd a arolygwyd o ansawdd uwch, mae 75% ohonynt heb eu heffeithio gan faterion amwynder, dim ond 15% o'r tir cyflogaeth sydd ar gael sydd â defnyddiau cyfagos sy'n amharu arnynt, mae 80% o'r tir

Draft

cyflogaeth wedi'i leoli neu yn weladwy iawn ar ffordd A, ac mae 85% o'r tir cyflogaeth ar hyd y sir wedi'i gyfyngu'n rhannol yn unig neu heb ei gyfyngu.

# 6. Dadansoddiad (opsiynau ar gyfer rhoi sylw i'r mater)

6.1.1 Mae nifer o faterion i'w hystyried mewn perthynas â'r economi wledig ac mae nifer ohonynt yn aros am dystiolaeth bellach, gan gynnwys yr Astudiaeth Cyflogaeth Leol a Mwy a'r Archwiliad Ynni Adnewyddadwy y disgwylir iddynt gael eu cwblhau ar ddiwedd 2019. Ond, yn fyr, y prif faterion yw:

- Ystyried dyraniadau tir yn y dyfodol ar gyfer safleoedd cyflogaeth yn wyneb y tir sydd ar gael ar hyd a lled y sir fel y disgrifir yn yr Adolygiad o Dir Cyflogaeth, yn arbennig beth fydd cyfeiriad Dyraniad Safle Capel Bangor yn y dyfodol a fydd, yn ôl pob tebyg, yn gasgliadau sy'n deillio o'r Astudiaeth Cyflogaeth Leol a Mwy sy'n cael ei gynnal, a disgwylir i ganlyniadau Tyfu Canolbarth Cymru gael eu cyhoeddi tua diwedd 2019.
- Ar ôl ymchwilio'r mathau o safleoedd cyflogaeth ar hyd a lled y sir a'r tir sydd ar gael ar draws y grŵp anheddu, ystyried a oes angen i ni gyflwyno polisi diogelu ar gyfer safleoedd cyflogaeth sy'n bodoli.
- Mae angen ystyried ymhellach a yw defnyddiau hamdden yn dderbyniol ar safleoedd cyflogaeth gan y derbynnir ymholiadau yn aml trwy'r gwasanaeth rheoli datblygu ar gyfer campfeydd a chanolfannau chwarae meddal mewn ardaloedd wedi'u gwarchod ar gyfer defnyddiau B.
- Yn olaf, ystyried sut y gallwn gefnogi'r economi amaethyddol a'r cynlluniau newydd sy'n deillio o fframwaith Tyfu Canolbarth Cymru ar gyfer cefnogi ac arallgyfeirio'r economi wledig.

# 7. Casgliadau / Argymhellion

7.1.1 Nid oes unrhyw newidiadau polisi penodol yn deillio o'r papur pwnc hwn gan fod y newidiadau i'r polisi manwerthu wedi cael eu trafod yn y Papur Pwnc Manwerthu. Fodd bynnag, yr hyn y mae'r papur hwn wedi'i wneud yw tynnu sylw at y ffaith bod mwy o ffocws ar dwf ar draws y rhanbarth, ac mae'r polisïau wedi cael eu hadolygu i sicrhau eu bod mor ganiataol â phosibl heb

Draft

gyfaddawdu eu heffeithiolrwydd er mwyn caniatáu ar gyfer y twf arfaethedig. Mae hyn oherwydd nad yw'r cynlluniau yn ddigon cadarn ar hyn o bryd er mwyn gallu gwneud dyraniadau penodol. Mae'r papur hwn hefyd wedi cadarnhau pwysigrwydd y sylfaen dystiolaeth gynyddol a'r ffaith bod angen i bolisïau'r economi gael eu hadolygu'n gyson ar gyfer eu hadneuo yn sgil yr Astudiaeth Cyflogaeth Leol a Mwy newydd, gwaith pellach Tyfu Canolbarth Cymru a'r Archwiliad Ynni Adnewyddadwy.

7.1.2 Nid yw Ceredigion yn sir sy'n cael ei harwain gan dwf cyflogaeth, felly mae llawer o'r tir cyflogaeth a neilltuwyd hwn yn cymryd llawer o amser i'w ddatblygu fel sy'n wir yn y rhan fwyaf o ardaloedd gwledig. Mae'n debygol na fydd angen llawer o dir pellach y tu hwnt i'r hyn y disgwylir ei gario ymlaen o safleoedd cyflogaeth a neilltuwyd ar draws y sir. Bydd twf swyddi yn digwydd ar safleoedd heb eu neilltuo yn bennaf, mewn busnesau seiliedig yn y cartref yn aml, ac felly ni ellir cynllunio ar eu cyfer. Yr hyn rydym wedi'i sefydlu yw bod ein polisïau yn gallu bod yn hyblyg a chefnogi twf lle bynnag y mae'n gynaliadwy, fel y digwyddodd yng nghyfnod y cynllun blaenorol, a'u bod yn gallu darparu ar gyfer cynlluniau newydd Tyfu Canolbarth Cymru sydd wedi'u hamlinellu yn y papur hwn.

Draft